# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 07 Ionawr 2019 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 08 Ionawr 2019 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 16 Ionawr 2019 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Gareth Thomas, Aelod Cabinet dros Addysg

**PWNC**

Caniatad i gyhoeddi rhybudd statudol ar y cynnig i newid ystod oedran Ysgol Dyffryn Ardudwy o 4-11 i 3-11.

**PENDERFYNIAD –**

i. Cymeradwyo'r cynnig i newid ystod oedran Ysgol dyffryn Ardudwy o 4-11 i 3-11 fel y gellir derbyn plant i ddosbarth meithrin yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed, gan weithredu'r newid ar 1af Medi 2019

ii.

iii. Cymeradwyo cyhoeddi rhybudd statudol ar y cynnig yn (i) uchod yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac arweiniad Cod Trefniadaeth Ysgolion 006/2013

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr adroddiad swyddog atodedig

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –

Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd
Aelod Lleol
Cynhaliwyd Ymgynghoriad Statudol a derbyniwyd ymatebion gan

- NASUWT
- Estyn
- Disgyblion Ysgol Dyffryn Ardudwy

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodol

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Cynghorydd Gareth Thomas |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Owen Owens<br>Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad : | 07/01/2019 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet: |  |

**1. Pwnc :**

Caniatâd i gyhoeddi rhybudd statudol ar y cynnig i newid ystod oedran Ysgol Dyffryn Ardudwy o 4-11 i 3-11.

**2. Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

(i) Cymeradwyo'r cynnig i newid ystod oedran Ysgol Dyffryn Ardudwy o 4-11 i 3-11 fel y gellir derbyn plant i ddosbarth meithrin yn y mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn 3 oed, gan weithredu'r newid ar 1af Medi 2019

(ii) Cymeradwyo cyhoeddi rhybudd statudol ar y cynnig yn (i) uchod yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac arweiniad Cod Trefniadaeth Ysgolion 006/2013.

**3. Rheswm dros yr angen am y penderfyniad :**

Yn dilyn cynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig uchod mae angen i'r awdurdod benderfynu os yw am fwrw 'mlaen â'r cynnig. Os am wneud hynny bydd angen cyhoeddi rhybudd statudol ar y cynnig yn unol a gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac arweiniad Cod Trefniadaeth Ysgolion 006/2013.

**4. Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y penderfyniad**

**4.1** Mae bron pob ysgol gynradd yng Ngwynedd yn derbyn plant i ddosbarth meithrin ym mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn 3 oed. Ar hyn o bryd mae ystod

oedran Ysgol Dyffryn Ardudwy yn 4-11. Cyflwynodd Corff Llywodraethol Ysgol Dyffryn Ardudwy gais i Adran Addysg Gyngor Gwynedd i gael newid yr ystod oedran i 3-11 fel eu bod hwythau hefyd yn gallu derbyn plant yn y mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn 3 oed. Yn dilyn rhoi ystyriaeth i'r cais cytunodd yr Adran Addysg i gynnal trefn statudol ar y cynnig i newid ystod oedran Ysgol Dyffryn Ardudwy o 4-11 i 3-11.

**4.2** Cyhoeddwyd taflen penderfyniad ar 3 Awst 2018, yn datgan penderfyniad Aelod Cabinet Addysg Cyngor Gwynedd i ymgymryd a phroses ymgynghori statudol ar y cynnig i newid ystod oedran Ysgol Dyffryn Ardudwy o 4-11 i 3-11 o Fedi 2019 ymlaen.

Lluniwyd dogfen ymgynghori statudol a chynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynnig gydag ymgynghorai perthnasol rhwng 17 Medi – 29 Hydref 2018, yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a chanllawiau Cod Trefniadaeth Ysgolion 006/2013.

**4.3** Derbyniwyd ymatebion i'r ymgynghoriad gan y canlynol:

- NASUWT
- Estyn
- 15 o ddisgyblion Ysgol Dyffryn Ardudwy

**4.4** Yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a chanllawiau Cod Trefniadaeth Ysgolion 006/2013, yn dilyn cynnal yr ymgynghoriad, lluniwyd adroddiad arno gan roi'r adroddiad ar wefan y Cyngor ar 30 Tachwedd 2018 a rhannu linc neu rannu copïau caled gyda buddiolwyr perthnasol.

**4.5** Ceir sylwadau yr NASUWT ac ymateb y Cyngor iddynt yn y tabl isod:

| Sylwadau | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|
| Nid oes gan yr undeb wrthwynebiad i'r bwriad hwn mewn egwyddor. Bydd yn cynyddu capasiti yr ysgol rhywfaint ac fe all olygu diogelwch swyddi gan fydd blwyddyn meithrin ychwanegol mewn bodolaeth.<br><br>Mae'n amlwg bydd effaith ar y Cylch Meithrin lleol, felly buasem yn gofyn os oes modd ystyried cael y Cylch ar safle yr ysgol yn hytrach nag ar safle arwahan? Buasai hyn yn galluogi y<br>Disgyblion Meithrin i aros ar dir yr ysgol ar ôl derbyn eu 2 awr dyddiol gan fynd at y Cylch i gael rhagor o oriau (e.e. clwb cinio ac ati.) Bydd hyn yn galluogi y Cylch i barhau i | Mae Cylch Meithrin Y Gromlech wedi ei leoli wrth mynedfa safle Ysgol Dyffryn Ardudwy, felly mae mwy neu lai ar y safle yn barod. Oherwydd hyn mi fydda trosglwyddo plant o'r Cylch i'r ysgol, neu ysgol i Cylch, yn hwylus iawn.<br><br>Mi fydd yr ysgol hefyd yn cymryd i ystyriaeth pryd mae'r Cylch yn cwrdd er mwyn sicrhau'r opsiwn i blant allu mynychu'r Cylch yn ogystal a'r ysgol os dymuna eu rhieni. |

| | |
|---|---|
| gael cyllid o'r Awdurdod drwy'r Cynllun 30 Awr (os oes rhieni cymwys) ac felly yn sicrhau dyfodol y Cylch a'i staff.*<br><br>* Mae hyn yn llwyr ddibynnol ar os ydyw'n bosib cynnal y Cylch ar dir yr ysgol neu beidio; ac ar ddymuniadau y Cylch wrth reswm. Ond mae'n syniad. | |

Gellir gweld copi o'r ymateb llawn yn **atodiad 1** - mae'r wybodaeth bersonol ar yr ymateb wedi ei dduo er mwyn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf Diogelu Data 2018.

### 4.6 Ymateb Estyn

Derbyniwyd sylwadau gan Estyn fel rhan o'r ymgynghoriad. Gellir weld eu ymateb llawn yn **atodiad 1**.

Yn eu hymateb i'r ymgynghoriad mae Estyn i weld yn hapus a chynnwys y ddogfen ymgynghori gan nodi fod y Cyngor, yn ei ymgynghoriad, yn:

- *rhoi ystyriaeth deg i ymgynghori gyda gwahanol fudiadau, grwpiau, sefydliadau a rhan ddeiliaid, ac yn ystyried unrhyw effaith y gallai unrhyw newid ei gael ar ddarparwyr addysg feithrin ac ysgolion lleol.*
- *rhoi sylw priodol i gynhwysedd cyfredol yr ysgol, ac ystyriaeth i effaith cynnydd posibl mewn niferoedd o ganlyniad i dderbyn plant ar ôl eu pen-blwydd yn dair. Mae hefyd yn rhoi sylw i niferoedd a rhagolygon ysgolion eraill yn lleol, a'r effaith y gallai unrhyw newid ei gael ar eu niferoedd hwy.*
- *rhoi ystyriaeth briodol i effaith posibl newid oedran derbyn Ysgol Dyffryn Ardudwy ar ysgolion eraill yn lleol.*
- *rhoi sylw priodol i effaith y cynnig ar safonau ac ar y ddarpariaeth yn yr ysgol, ar ddatblygiad y Gymraeg, effaith posibl ar y gymuned ac agweddau cludiant.*
- *cydnabod yr effaith y gallai'r datblygiad ei gael ar Gylch Meithrin y Gromlech ac yn nodi fod cyfle i gynrychiolwyr y sefydliad ymateb i'r ymgynghoriad a fod cefnogaeth ar gael trwy swyddog busnes tîm plant a chefnogi teuluoedd Gwynedd.*

Dydi Estyn ddim yn nodi unrhyw sylwadau negyddol mewn perthynas a'r cynnig na'r wybodaeth yn y ddogfen ymgynghori felly dydi'r Cyngor ddim yn gweld angen i gynnwys ymateb i unrhyw sylw yn eu hymateb.

### 4.7 Ymatebion i'r ymgynghoriad gyda phlant

Cynhaliodd pennaeth Ysgol Dyffryn Ardudwy sesiwn ymgynghori gyda chynrychiolaeth o ddisgyblion yn yr ysgol. Mae dadansoddiad y pennaeth o'r sesiynau hyn ar gael yn **atodiad 2** yr adroddiad yma.

Mae adroddiad y pennaeth yn nodi fod 15 o blant wedi cwblhau'r holiadur gyda 12 yn cytuno a'r bwriad i newid yr oed mynediad a 3 heb farn arbennig. Dyma rai o'u sylwadau:

- 'Dwi'n meddwl ei fod yn syniad da gan y bydd mwy o blant yma i gael chwarae efo nhw'.
- 'Dwi'n meddwl ei fod yn syniad da oherwydd bydd gan blant y Dosbarth Derbyn yn gallu gwneud mwy o ffrindiau'.
- 'Dwi'n meddwl ei fod yn syniad da oherwydd byddant yn cael dechrau dysgu darllen a sgwennu'n gynt'.
- Dwi'n meddwl ei fod yn syniad da oherwydd efallai bod eu Mam a Dad eisiau nhw gychwyn yn yr ysgol yn gynt..

**4.8** Cynhaliwyd asesiadau effaith ar yr Iaith Gymraeg, Cymuned a Chydraddoldeb fel rhan o'r ymgynghoriad.

Cynhaliwyd yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r asesiadau yn nodi'r sefyllfa bresennol ac yn dangos fod polisïau a threfniadau mewn lle a fyddai'n sicrhau fod y cynnig yn ystyried ac yn cyd-fynd â hawliau cyfartal. Wedi pwyso a mesur y ffactorau perthnasol deuir i'r casgliad bod sicrwydd yr hyrwyddir cyfleoedd cyfartal yn gadarnhaol yn sgil y cynnig a bod mesurau mewn lle i sicrhau na fydd camwahaniaethu anghyfreithlon ac aflonyddu. Mae trefniadau mewn lle yn ogystal fydd yn monitro ac yn adolygu'r sefyllfa.

Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau ar gynnwys yr asesiadau hyn.

Mae'r Cyngor yn credu y bydd y cynnig yn creu effaith bositif gan fydd plant yn gallu cychwyn yn yr ysgol yn y Medi yn dilyn eu penblwydd yn 3 oed, yn unol â mwyafrif ysgolion cynradd y sir.

Mae'r asesiadau i'w gweld ar www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg

**4.9** Yn dilyn ystyried y sylwadau dderbyniwyd i'r cynnig yn ystod yr ymgynghoriad mae'r Cyngor yn hyderus bydd y cynnig yn gwella addysg yn nalgylch Ysgol Dyffryn Ardudwy.

Mae'r Cyngor yn cydnabod pryderon posib yn ymwneud a'r cylch meithrin ac wedi cyfeirio'r cylch at gymorth a chyngor sydd ar gael gan Swyddog Busnes a Tim Cymorth Plant a Theuluoedd Gwynedd. Mi fydd y Cyngor hefyd yn annog yr ysgol a'r Cylch i barhau i gydweithio er lles y plant lleol.

Gan fod y rhagolygon cynnydd mewn niferoedd yn fach a bod trefniadau cadarn mewn lle yn y Cyfnod Sylfaen ni ragwelir fydd cyflwyno dosbarth meithrin yn yr ysgol yn niweidiol i safonau'r ysgol.

Mi fydd angen i'r Corff Llywodraethol flaengynllunio trefn dosbarthiadau a strwythur staffio ar gyfer cyflwyno dosbarth meithrin a derbyn plant ychwanegol a rhoi camau yn eu lle i sicrhau fod safonau da yr ysgol yn parhau yn dilyn y newid.

Mae'r Cyngor yn hyderus fydd y sylwadau hyn yn cael sylw priodol gan y Corff Llywodraethol.

Ar sail hyn argymhellir felly i gymeradwyo'r cynnig i newid ystod oedran Ysgol Dyffryn Ardudwy o 4-11 i 3-11 o Fedi 2019 ymlaen ac i gyhoeddi rhybudd statudol ar y cynnig.

**5. Camau Nesaf**

**5.1** Cyhoeddir y rhybudd statudol gan ganiatáu cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod rhwng 16 Ionawr – 13 Chwefror 2019. Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynnig yn y cyfnod hwn.

**5.2** Yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet, neu Aelod Cabinet Addysg, i wneud penderfyniad terfynol ar y cynnig. Rhaid cofio bod rhai sefyllfaoedd lle bydd penderfyniad terfynol y Cyngor yn gallu cael ei gyfeirio at y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Llywodraeth Cymru yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013).

**5.3** Yn ddarostyngedig ar benderfyniadau'r Cabinet, dyma gamau nesaf y broses gydag amserlen amlinellol:

| **Dyddiad** | **Camau** |
|---|---|
| 16 Ionawr 2019 | Cyhoeddi rhybudd statudol |
| 13 Chwefror 2019 | Dyddiad cau ar gyfer derbyn gwrthwynebiadau i'r cynnig |
| O fewn 16 wythnos o ddyddiad cau y cyfnod gwrthwynebu statudol | Cabinet Cyngor Gwynedd neu Aelod Cabinet Addysg i ystyried unrhyw wrthwynebiadau a gwneud penderfyniad terfynol ar y cynnig |
| | Cyhoeddi'r penderfyniad |
| Medi 2019 | Gweithredu'r cynnig neu barhau â'r drefn bresennol |

**6. Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau:**

Dim

**7. Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad:**

**Prif Swyddog Cyllid**
Fel mae'r awdur wedi nodi yn rhan 4.1 o'r adroddiad, mae bron pob ysgol gynradd yng Ngwynedd yn derbyn plant i ddosbarth meithrin ym mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed. Ni fydd gweithredu'r penderfyniad yma'n golygu ymhlygiad ariannol 'net' i'r Cyngor, gan fydd y cynnydd yn y gyllideb i'w ddyrannu i'r ysgolion cynradd (cyfwerth â cost y plant hynny fydd yn mynychu'r ysgol) yn cael ei ariannu trwy gwtogiad cymesur yn y gyllideb sy'n ariannu 'cylchoedd meithrin nas gynhelir'.

**Swyddog Monitro**

Mae'r adroddiad yn crynhoi yr ystyriaethau a chanlyniad yr ymgynhoriadau mewn modd priodol. Dim sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb.

**Aelod Lleol**
Cefnogi y cais gan fod athrawon, rhieni a llywodraethwyr yn cefnogi y cais. Fydd o fantais i'r plant, rhieni ac athrawon ac y Cylch Meithrin ac fydd Dyffryn Ardudwy i fod yr un fath ac ysgolion eraill yn Gwynedd.

# Ffurflen Ymateb

Cynnig i newid ystod oedran Ysgol Dyffryn Ardudwy o 4-11 i 3-11
yn unol ag adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013

| **Eich Manylion** | | | **Dyddiad:** | 19/10/18 |
|---|---|---|---|---|
| **Enw** | [redacted] | | | |
| **Cyfeiriad** | NASUWT Cymru, Cwrt Bowen, Stad Fusnes Llanelwy, Llanelwy | | | |
| **Cyfeiriad E-bost** | nasuwt.gwynedd@gmail.com | | | |
| **Rwy'n ymateb fel...** *(Cylchwch yr ymateb perthnasol)* | Rhiant | Llywodraethwr | Staff | Disgybl |
| | | Arall (nodwch): | Ysgrifennydd NASUWT Gwynedd | |

**Yn unol â gofynion deddfwriaeth diogelu data, mae'n ofynnol i ni eich hysbysu o'r canlynol:**

Mae Cyngor Gwynedd yn ceisio eich barn ar y cynnig hwn fel rhan o broses ymgynghori statudol. Defnyddir y manylion a ddarperir gennych i'r pwrpas hwn yn unig. Efallai y bydd y wybodaeth yn cael ei rannu gydag asiantaethau sy'n ymwneud a'r ymgynghoriad (e.e. Llywodraeth Cymru) ond dim ond at ddiben ymateb i faterion penodol gall eich bod wedi eu nodi yn eich ymateb. Byddwn yn parhau i ystyried eich sylwadau pa bynnag opsiwn a ddewisir. Cedwir eich manylion personol am 7 mlynedd.

Gyda'ch caniatâd, mae'n bosib y bydd eich sylwadau yn cael eu rhyddhau, yn llawn neu heb gynnwys manylion personol fel enwau a chyfeiriadau, mewn adroddiad i'r Cabinet ar yr ymgynghoriad. **Os nad ydych yn dymuno i'r Cyngor gyhoeddi eich ymateb,** nodwch isod trwy roi ✓ yn y blwch perthnasol os gwelwch yn dda:

☐ Cytunaf i'r Cyngor gyhoeddi fy ymateb **yn llawn**, gan gynnwys fy ngwybodaeth bersonol.

☒ Cytunaf i'r Cyngor gyhoeddi fy ymateb, **heb** gynnwys fy ngwybodaeth bersonol.

☐ **Nid** wyf yn cytuno i'r Cyngor gyhoeddi fy ymateb.

Am fwy o wybodaeth am eich hawliau a manylion Swyddog Diogelu Data'r Cyngor ewch i'r adran Preifatrwydd ar wefan y Cyngor.

**Anfonwch eich ymateb at:**
Swyddfa Moderneiddio Addysg,
Adran Addysg, Cyngor Gwynedd,
Caernarfon
LL55 1SH
*neu* Moderneiddioaddysg@gwynedd.llyw.cymru

**Dyddiad cau:** 13:00 ar ddydd Llun, 29 Hydref 2018

**Nodwch mai sylwadau yw'r ymatebion ac nid gwrthwynebiad i'r cynnig.**

**Bydd cyfle i wrthwynebu'r cynnig os bydd rhybudd statudol yn cael ei gyhoeddi.**

**Sylwadau:**

**Ffurflen Ymateb**

Cynnig i newid ystod oedran Ysgol Dyffryn Ardudwy o 4-11 i 3-11

yn unol ag adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013

**Sylwadau:**

Mae NASUWT Gwynedd yn croesawu y cyfle i ymgynghori ar y bwriad hwn. NASUWT Cymru yw undeb athrawon mwyaf Cymru.

Nid oes gan yr undeb wrthwynebiad i'r bwriad hwn mewn egwyddor. Bydd yn cynyddu capasiti yr ysgol rhywfaint ac fe all olygu diogelwch swyddi gan fydd blwyddyn meithrin ychwanegol mewn bodolaeth. Mae'n amlwg bydd effaith ar y Cylch Meithrin lleol, felly buasem yn gofyn os oes modd ystyried cael y Cylch ar safle yr ysgol yn hytrach nag ar safle arwahan? Buasai hyn yn galluogi y Disgyblion Meithrin i aros ar dir yr ysgol ar ôl derbyn eu 2 awr dyddiol gan fynd at y Cylch I gael rhagor o oriau (e.e. clwb cinio ac ati.) Bydd hyn yn galluogi y Cylch i barhau i gael cyllid o'r Awdurdod drwy'r Cynllyn 30 Awr (os oes rhieni cymwys) ac felly yn sicrhau dyfodol y Cylch a'i staff.*

* Mae hyn yn llwyr ddibynnol ar os ydyw'n bosib cynnal y Cylch ar dir yr ysgol neu beidio; ac ar ddymuniadau y Cylch wrth reswm. Ond mae'n syniad.

Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Ymateb Estyn i'r ymgynghoriad gan Gyngor Gwynedd i newid ystod oedran Ysgol Dyffryn Ardudwy o 4-11, i 3-11 oed, yn unol a gofynion adran 48 deddf safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013.**

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion ( cymru) 2013 a'i chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori at Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol a'r cod ac nid yw'r ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi ei farn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr, a gwybodaeth ychwanegol arall fel data gan Lywodraeth Cymru a barnau'r Consortia Rhanbarthol sy'n darparu gwasanaethau gwella ysgolion i'r ysgolion sy'n ddaearyddol gysylltiedig a'r cynnig.

**Cyflwyniad.**

**Y Cynnig: ( gan Gyngor Gwynedd gyda chefnogaeth corff Llywodraethol Ysgol Gynradd Dyffryn Ardudwy)**

Newid ystod oedran Ysgol Gynradd Dyffryn Ardudwy o 4-11 I 3-11 o Fedi 2019 ymlaen. Golyga hyn y bydd yr ysgol yn gallu derbyn plant i ddosbarth Meithrin y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed.'

Mae'r cynnig gan Gyngor Gwynedd. Mae bron bob ysgol gynradd yng Ngwynedd yn cynnig 10 awr o addysg Feithrin ar gyfer disgyblion fydd yn cychwyn yn yr ysgol y Mis Medi ar ôl eu trydydd pen-blwydd. Ar hyn o bryd, y mis Medi ar ôl iddynt gael eu pen-blwydd yn bedair y gall disgyblion gychwyn yn Ysgol Dyffryn Ardudwy. Mae Awdurdod Lleol Gwynedd a Bwrdd Llywodraethol yr ysgol yn awyddus i newid yr oedran derbyn fel y bydd Ysgol Dyffryn Ardudwy hefyd yn gallu derbyn plant yn y mis Medi ar ôl eu trydydd pen-blwydd. Noda'r ymgynghoriad mai'r bwriad yw sefydlu'r newid o Fedi 2019. Nid oes pryder y byddai'r cynnig, o'i dderbyn, yn cael effaith niweidiol ar safonau addysgol yn yr ardal.

**Crynodeb/casgliad.**

Mae 86 o ysgolion cynradd yng Ngwynedd. Mae polisi a chanllawiau derbyn plant i ysgolion cynradd Gwynedd yn nodi fod y Cyngor 'yn cynnig lle meithrin rhan amser (10 awr yr wythnos) i blant mewn ysgol yn y mis Medi yn dilyn eu trydydd pen-blwydd, am flwyddyn ysgol lawn. Fel arfer mae gan ysgolion unai sesiwn bore neu sesiwn prynhawn. Mewn ysgolion sydd â sesiwn

Estyn, Llys Angor/Anchor Court, Heol Keen/Keen Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 5JW
Ffôn/Telephone 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru • enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.llyw.cymru • www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.
Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

bore a phrynhawn nid oes hawl cyfreithiol gan rieni i ddewis pa sesiwn gall eu plentyn fynychu. Yn yr ychydig ardaloedd ble nad yw'r awdurdod yn darparu ar gyfer addysg plant yn y mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn dair oed mewn dosbarth Meithrin mewn ysgol, cynigir darpariaeth trwy gyllido lleoedd a ddarperir gan y grwpiau gwirfoddol megis Mudiad Ysgolion Meithrin a Grwpiau chwarae cyn ysgol.' Mae bron bob ysgol yng Ngwynedd yn gweithredu'n unol a'r polisi hwn.

**Disgrifiad a manteision**

Mae'r cynnig yn amlinellu bwriad yr Awdurdod Lleol i ehangu oedran yr ysgol, fydd yn golygu y bydd Ysgol Dyffryn Ardudwy yn gwireddu polisi derbyniadau ysgolion cynradd Gwynedd. Bydd y ddarpariaeth yn cael ei gynnig mewn pum sesiwn o ddwy awr, naill ai yn y bore neu'r prynhawn.

Mae Ysgol Dyffryn Ardudwy wedi ei lleoli ym mhentref Dyffryn Ardudwy, sydd yn nalgylch Ysgol Ardudwy, Harlech. Mae'r ysgol yn gwasanaethu pentrefi Dyffryn Ardudwy a Thal y bont.

Mae'n ymddangos fod y cynnig yn rhoi ystyriaeth deg i ymgynghori gyda gwahanol fudiadau, grwpiau, sefydliadau a rhan ddeiliaid, ac yn ystyried unrhyw effaith y gallai unrhyw newid ei gael ar ddarparwyr addysg feithrin ac ysgolion lleol.

Mae'r cynnig yn rhoi sylw priodol i gynhwysedd cyfredol yr ysgol, ac ystyriaeth i effaith cynnydd posibl mewn niferoedd o ganlyniad i dderbyn plant ar ôl eu pen-blwydd yn dair. Mae hefyd yn rhoi sylw i niferoedd a rhagolygon ysgolion eraill yn lleol, a'r effaith y gallai unrhyw newid ei gael ar eu niferoedd hwy.

Mae rhagolygon pum mlynedd yn awgrymu y gallai ysgol Dyffryn Ardudwy fynd dros eu niferoedd derbyn o ganlyniad i'r newid arfaethedig. Mae'r cynnig yn ystyried hyn ac yn nodi fod ystafelloedd amgen ar gael yn yr ysgol fyddai'n cael eu defnyddio ar gyfer gofod dysgu a gweithgaredd pe derbynnid y cais.

Nodir fod cyflwr yr adeiladau'n dda yn Ysgol Dyffryn Ardudwy (categori cyflwr A).

Mae'r cynnig yn rhoi ystyriaeth briodol i effaith posibl newid oedran derbyn Ysgol Dyffryn Ardudwy ar ysgolion eraill yn lleol, sef Ysgol Llanbedr, Ysgol y Traeth ac Ysgol Tan y Castell. Nid yw'n ymddangos y bydd newid oedran derbyn Ysgol Dyffryn Ardudwy yn cael effaith ar niferoedd yr ysgolion eraill cyfagos, nag ar ansawdd yr addysg na safonau cyflawniad yn yr ysgolion hyn. Mae'r cais yn rhoi sylw i ragamcanion niferoedd yr ysgolion ac i ganfyddiadau adroddiadau mwyaf diweddar Estyn yn yr ysgolion. Rhoddir sylw i safonau cyflawniad disgyblion, y ddarpariaeth ac arweinyddiaeth.

Mae'r cais yn cydnabod yr effaith y gallai'r datblygiad ei gael ar Gylch Meithrin y Gromlech sydd yn darparu addysg Feithrin i ddisgyblion tair oed yn nalgylch yr ysgol ar hyn o bryd, rhwng 9.00 a 11.00 bob bore. Noda'r cais y byddai newid oedran derbyn yr ysgol o 4 i 3 oed yn cael effaith negyddol ar niferoedd a chyllideb y cylch meithrin i'r dyfodol. Mae'r cylch yn darparu gwasanaeth rhwng 9.00 ac 1.00 yn ddyddiol, yn gyfredol.

Mae'r her yma wedi ei amlygu yn y cynnig. Mae cyfle i gynrychiolwyr y sefydliad ymateb i'r ymgynghoriad ac mae'r cynnig hefyd yn nodi fod cefnogaeth ar gael trwy swyddog busnes tîm plant a chefnogi teuluoedd Gwynedd.

Mae'r cynnig yn rhoi sylw priodol i effaith y cynnig ar safonau ac ar y ddarpariaeth yn yr ysgol, ar ddatblygiad y Gymraeg, effaith posibl ar y gymuned ac agweddau cludiant. Mae hefyd yn rhoi ystyriaeth i'r risgiau posibl sy'n gysylltiedig â'r cynnig, ac yn amlinellu camau lliniaru cytbwys.

Mae'r cynnig yn darparu cyfle effeithiol i randdeiliaid, sefydliadau ac aelodau o'r cyhoedd i ymateb trwy ffurflen gryno, o fewn terfynau amser teg.

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Estyn's response to the consultation by Gwynedd Council to change the age range of Ysgol Dyffryn Ardudwy from 4-11 to 3-11, in line with the requirements of section 48 of the School Standards and Organisation Act 2013**

Under the terms of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 and its associated Code, proposers are required to send consultation documents to Estyn. However Estyn is not a body which is required to act in accordance with the Code and the Act places no statutory requirements on Estyn in respect of school organisation matters. Therefore as a body being consulted, Estyn will provide their opinion only on the overall merits of school organisation proposals.

Estyn has considered the educational aspects of the proposal and has produced the following response to the information provided by the proposer and other additional information such as data from Welsh Government and the views of the Regional Consortia, which deliver school improvement services to the schools within the proposal.

**Introduction**

**The proposal (by Gwynedd Council with the support of the governing body of Ysgol Gynradd Dyffryn Ardudwy)**

'To change the age range of Ysgol Gynradd Dyffryn Ardudwy from 4-11 to 3-11 from September 2019 onwards. This means that the school will be able to admit children into a Nursery class in the September following their third birthday.'

This is a proposal by Gwynedd Council. Nearly all primary schools in Gwynedd offer 10 hours of nursery education for children who will start school in the September following their third birthday. Currently, pupils are able to start at Ysgol Dyffryn Ardudwy in the September following their fourth birthday. Gwynedd local authority and the school's governing body are keen to change the admission age so that Ysgol Dyffryn Ardudwy will also be able to admit children in the September following their third birthday. The consultation identifies that the aim is to implement the change from September 2019. There are no concerns that the proposal, if accepted, will have a detrimental effect on educational standards in the area.

**Summary/conclusion**

There are 86 primary schools in Gwynedd. Gwynedd's primary school admission policy and guidelines identify that the Council 'offers children a part-time (10 hours a week) nursery place in a

Estyn, Llys Angor/Anchor Court, Heol Keen/Keen Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 5JW
Ffôn/Telephone 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru • enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.llyw.cymru • www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

school, in the September following their third birthday for a full academic year. Schools will normally have either a morning or an afternoon nursery session. In schools which have both a morning and afternoon session, there is no legal right for parents to choose which session their child attends. In the few areas where the Authority does not provide for the education of children in the September following their third birthday in a school, nursery provision is offered by funding places provided by the voluntary groups i.e. Mudiad Ysgolion Meithrin and pre-school playgroups.' Nearly all schools in Gwynedd operate in line with this policy.

**Description and benefits**

The proposal outlines the Local Authority's intention to extend the school's age range, which will mean that Ysgol Dyffryn Ardudwy will realise Gwynedd's primary school admission policy. Provision will be offered in five sessions of two hours, either in the morning or afternoon.

Ysgol Dyffryn Ardudwy is situated in the village of Dyffryn Ardudwy, which is in the catchment area of Ysgol Ardudwy, Harlech. The school serves the villages of Dyffryn Ardudwy and Tal-y-bont.

The proposal appears to give good consideration to consulting with different bodies, groups, organisations and stakeholders, and considers the effect that any change may have on local nursery education providers and schools.

The proposal gives appropriate attention to the school's current capacity, and considers the effect of a possible increase in numbers as a result of admitting children following their third birthday. It also gives attention to the numbers and prospects of other local schools and the effect any change could have on their numbers.

Five-year forecasts suggest that Ysgol Dyffryn Ardudwy may become oversubscribed as a result of the proposed change. The proposal considers this and identifies that there are alternative rooms available in the school that would be used as learning and activity space, should the proposal be accepted.

The condition of the accommodation at Ysgol Dyffryn Ardudwy is identified as good (condition category A).

The proposal gives appropriate consideration to the possible effect of changing the age range at Ysgol Dyffryn Ardudwy on other local schools, namely Ysgol Llanbedr, Ysgol y Traeth and Ysgol Tan y Castell. It does that appear that changing the admission age at Ysgol Dyffryn Ardudwy will have an effect on pupil numbers at the other nearby schools, or the quality of education or standards of achievement at these schools. The proposal gives attention to the schools' projected numbers and the findings of their most recent Estyn reports. Attention is given to pupils' standards of achievement, provision and leadership.

The proposal recognises the effect that the development could have on Cylch Meithrin y Gromlech, which currently provides nursery education for three-year-old pupils in the school's catchment area, from 9.00am to 11.00am every morning. The proposal identifies that changing the school's admission age from 4 to 3 will have a negative effect on the setting's numbers and budget in the future. The setting currently provides a service from 9.00am to 1.00pm every day.

This challenge has been identified in the proposal. There is an opportunity for representatives of the organisation to respond to the consultations, and the proposal also identifies that support is available through the Gwynedd Children and Family Support Team Business Officer.

The proposal gives due attention to the effect of the proposal on standards and provision at the school, on the development of the Welsh language, the possible effect on the community and aspects of transport. It also considers the potential risks that are associated with the proposal and outlines balanced mitigation measures.

The proposal provides an effective opportunity for stakeholders, organisations and members of the public to respond through a concise form, within a fair timescale.

YSGOL GYNRADD DYFFRYN ARDUDWY
Dyffryn Ardudwy
Pennaeth - Mrs. Ann Jones B.Add. – Headteacher

---

## Cynnig i newid ystod oedran Ysgol Dyffryn Ardudwy i 3-11

## Ymgynghori Gyda'r Disgyblion

- Y Pennaeth wedi cyflwyno'r ddofgen â baratowyd gan yr Awdurdod Addysg ar Fedi 19eg, 2018.
- 15 holiadur wedi ei gwblhau gan ddisgyblion Bl. 4,5,6.
- 12/15 (80%) yn cytuno â'r bwriad i newid yr oed mynediad. 🙂
- 3/15 (20%) heb farn arbennig. 😐

Gwahoddwyd y plant hefyd i gynnig sylwadau ar y bwriad. Dyma rai o'u pwyntiau:

- 'Dwi'n meddwl ei fod yn syniad da gan y bydd mwy o blant yma i gael chwarae efo nhw'.
- 'Dwi'n meddwl ei fod yn syniad da oherwydd bydd gan blant y Dosbarth Derbyn yn gallu gwneud mwy o ffrindiau'.
- 'Dwi'n meddwl ei fod yn syniad da oherwydd byddant yn cael dechrau dysgu darllen a sgwenn'n gynt'.
- Dwi'n meddwl ei fod yn syniad da oherwydd efallai bod eu Mam a Dad eisiau nhw gychwyn yn yr ysgol yn gynt.